# Anesthesia Cyffredinol

## Canllaw ar gyfer pobl ifanc

## Anesthesia cyffredinol

Ar gyfer anesthesia cyffredinol bydd eich anesthetydd yn defnyddio meddyginiaeth (neu weithiau nwy anesthetig) i achosi cyflwr tebyg i gwsg trwm, sy'n golygu na fyddwch chi'n gweld, clywed na theimlo unrhyw beth. Bydd hyn yn golygu eich bod yn anymwybodol a ddim yn gallu deffro/dihuno nes bod effaith yr anesthetig wedi dod i ben. Mae anesthesia cyffredinol yn hanfodol ar gyfer llawer o driniaethau meddygol gan gynnwys llawdriniaethau a rhai profion meddygol.

## Tîm anesthesia

Mae anesthetyddion yn feddygon sydd wedi cael hyfforddiant arbenigol mewn defnyddio cyffuriau anesthetig i gadw pobl yn gyfforddus ac yn ddiogel pan fyddant yn cael llawdriniaeth a/neu brofion. Byddwch chi a'ch rhiant neu ofalwr yn cyfarfod anesthetydd cyn eich triniaeth. Bydd yn cytuno ar gynllun gyda chi ar gyfer eich anesthetig a lleddfu poen ar ôl y driniaeth. Bydd yn hapus i ateb unrhyw gwestiynau a fydd gennych chi. Bydd aelodau eraill o staff yn cefnogi'r anesthetydd yn ystod y llawdriniaeth neu'r prawf, er enghraifft, cymdeithion anesthesia, ymarferwyr yr adran lawdriniaeth (sydd weithiau'n cael eu galw'n ODPs) a nyrsys theatr.
Efallai y cewch eich gwahodd i glinig asesu cyn llawdriniaeth ychydig wythnosau neu ddyddiau cyn y llawdriniaeth. Yma bydd nyrs yn gofyn cwestiynau am eich iechyd ac yn trefnu unrhyw brofion y gallai fod eu hangen. Bydd hwn yn gyfle arall i ofyn unrhyw gwestiynau a fydd gennych chi a'ch rhiant neu ofalwr.

## Cydsynio

Bydd yr anesthetydd yn gweithio gyda chi a'ch rhiant neu ofalwr i gytuno ar gynllun ar gyfer eich gofal. Ni fydd unrhyw beth yn digwydd i chi nes bydd y cynllun wedi cael ei drafod a'i gytuno. Bydd croeso i chi ofyn cymaint o gwestiynau ag y dymunwch fel eich bod yn deall popeth sy'n digwydd ac yn 'cydsynio' (cytuno) i'r cynllun. Byddwch chi neu'ch rhiant neu ofalwr yn llofnodi ffurflen ganiatâd unwaith y byddwch chi'n hapus â'r cynllun arfaethedig ar gyfer eich gofal. Bydd angen i'ch rhiant neu ofalwr gydsynio ar gyfer eich llawdriniaeth os nad ydych chi'n ddigon hen i lofnodi eich ffurflen ganiatâd eich hun. Wrth i chi fynd yn hŷn byddwch yn gallu cael mwy o lais yn y penderfyniadau hyn.

Gallwch ddarllen mwy am gydsynio ar gyfer plant a phobl ifanc isod:
Lloegr: https://bit.ly/NHS-Wales-Consent
Yr Alban: https://bit.ly/NHSinform-consent.

# Paratoi ar gyfer eich anesthetig

## Eich iechyd

- Mae angen i chi fod mor iach â phosibl cyn cael anesthetig. Bydd gwneud newidiadau iach i'ch ffordd o fyw cyn cael anesthetig yn eich helpu i wella'n gyflymach.
- Os yn bosibl, yn ystod y chwe wythnos cyn eich llawdriniaeth, ceisiwch osgoi anadlu mwg sigaréts neu e-sigaréts pobl eraill. Mae hefyd yn bwysig i chi osgoi ysmygu neu fepio eich hun. Ystyriwch, efallai, gofyn bod unrhyw un sy'n byw gyda chi ac sy'n ysmygu neu'n fepio yn gwneud hynny tu allan yn ystod y cyfnod hwn. Mae rhoi'r gorau iddi neu dorri i lawr cyn llawdriniaeth yn gallu lleihau hyd eich arhosiad yn yr ysbyty a hybu gwellhad clwyfau a gweithrediad yr ysgyfaint.
- Ni ddylech yfed alcohol yn ystod y dyddiau a'r wythnosau cyn llawdriniaeth. Gall gormod o alcohol achosi i'ch iau/afu beidio â gweithio'n iawn ac arafu eich iachâd a'ch adferiad.
- Er eich diogelwch eich hun, bydd angen i'ch anesthetydd wybod a ydych chi'n cymryd y bilsen atal cenhedlu neu'n defnyddio cyffuriau hamdden neu unrhyw fath o atchwanegiadau.
- Pan fydd yr anesthetydd yn gofyn cwestiynau i chi am ysmygu, yfed a chymryd cyffuriau, byddwch yn onest wrth ateb. Rydym yn gwybod y gallai trafod y materion hyn fod yn lletchwith, felly os byddai'n well gennych chi i'ch rhiant neu ofalwr beidio â bod yn bresennol, gallwch ofyn am gael siarad â'r anesthetydd ar eich pen eich hun. Nid yw bod yn onest yn golygu y byddwch chi'n mynd i helynt!
- Os ydych chi'n cael llawdriniaeth, dylech hefyd ystyried edrych ar eich deiet a'ch lefelau ffitrwydd. Gallwch ddefnyddio'r amser pan fyddwch chi'n aros am y llawdriniaeth i ddod mor heini â phosibl, fel y gallwch chi wella a dod yn ôl i normal yn gyflymach. Mae rhagor o wybodaeth am baratoi ar gyfer llawdriniaeth ar gael mewn ieithoedd gwahanol ar ein gwefan: www.rcoa.ac.uk/patientinfo/translations#languages.
- Os oes gennych chi unrhyw broblemau meddygol hirdymor sydd ddim yn cael eu rheoli'n dda, dylech chi neu'ch rhiant neu ofalwr gysylltu â'ch meddyg teulu neu arbenigwr cyn dyddiad eich llawdriniaeth i roi gwybod y byddwch yn cael anesthetig yn fuan. Gallwch wedyn siarad â nhw am y camau sydd angen i chi a'ch anesthetydd eu cymryd er mwyn i chi fod mor ddiogel â phosibl yn ystod eich amser yn yr ysbyty.
- Dewch ag unrhyw feddyginiaethau rydych yn eu cymryd yn rheolaidd gyda chi i'r ysbyty. Bydd staff yr ysbyty yn dweud wrthych chi os bydd angen i chi roi'r gorau i'w cymryd.
- Os yn bosibl, dewch o hyd i wybodaeth am unrhyw alergeddau neu unrhyw aelodau o'r teulu sydd wedi cael adwaith i anesthetig, fel y gallwch ddweud wrth eich anesthetydd.
- Mae'n arferol i bob merch sydd wedi dechrau ei misglwyf neu sydd dros 12 oed gael prawf beichiogrwydd trwy gymryd sampl wrin. Mae hyn oherwydd bod beichiogrwydd, hyd yn oed beichiogrwydd cynnar, yn gallu effeithio ar y ffordd y mae rhai anesthetigion yn gweithio, felly mae angen i'r anesthetydd wybod am hyn. Hefyd, gall rhai triniaethau a phrofion niweidio babi yn y groth. Mae'r meddygon a'r nyrsys yn deall y gall hwn fod yn fater sensitif i'w drafod, felly'r ffordd fwyaf diogel a theg yw profi pawb. Mae staff yr ysbyty wedi arfer gwneud y profion hyn yn gyflym ac mewn modd tringar iawn.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael yma: https://flipbooks.leedsth.nhs.uk/LN005583.pdf.

## Bwyta ac yfed cyn eich anesthetig

- Bydd yr ysbyty yn rhoi cyfarwyddiadau manwl i chi ynghylch pryd i roi'r gorau i fwyta ac yfed cyn eich triniaeth.
- Er eich diogelwch chi, mae'n bwysig dilyn y cyfarwyddiadau hyn. Os bydd bwyd neu ormod o hylif yn eich stumog yn ystod eich anesthetig, gallai godi i gefn eich gwddf ac yna mynd i mewn i'ch ysgyfaint. Gall hyn achosi tagu neu niwed difrifol i'ch ysgyfaint. Byddwch fel rheol yn cael eich annog i yfed ychydig o hylif clir (dŵr neu sgwash gwan gan amlaf) – mae hyn yn ddiogel tan yn agos at amser eich anesthetig.

## Dillad

- Gwisgwch rywbeth llac a chyfforddus sy'n hawdd i'w olchi wedyn. Dylech osgoi gwisgo dillad newydd neu werthfawr i ddod i'r ysbyty.
- Holwch a oes angen i chi ddod â phyjamas, sliperi a/neu gŵn llofft.
- Dewch â rhywbeth i newid iddo ar gyfer mynd adref.
- Efallai y gofynnir i chi wisgo gŵn ysbyty.
- Fel arfer cewch gadw'r rhan fwyaf o'ch dillad isaf amdanoch pan fyddwch chi'n mynd i'r ystafell lawdriniaeth, gan gynnwys bra heb weiren metel, ond holwch eich nyrs. Weithiau bydd angen tynnu dillad isaf yn ystod y llawdriniaeth neu'r prawf.
- Yn achlysurol, efallai bydd y llawfeddyg yn eillio rhywfaint o flew'r corff o'r ardal sy'n cael ei thrin, ond fel arfer bydd yn dweud wrthych chi ymlaen llaw os bydd hyn yn digwydd.
- Efallai y gofynnir i chi wisgo sanau pen-glin elastig cyn eich llawdriniaeth. Mae'r rhain yn helpu i gadw'r gwaed yn symud yn dda o amgylch eich coesau i rwystro clotiau gwaed.

## Gemwaith a cholur

- Gadewch unrhyw emwaith a gemwaith tyllau yn y corff gartref, os yn bosibl. Os nad ydych chi'n gallu tynnu'ch gemwaith, dylai fod yn bosibl ei orchuddio â thâp i rwystro niwed i'r gemwaith ei hun neu i'ch croen.
- Peidiwch â gwisgo colur, blew amrannau ffug neu unrhyw fath o addurniadau ewinedd (ewinedd ffug, gel, acrylig, farnais ewinedd ac ati). Gall blew amrannau ffug niweidio eich llygaid tra byddwch yn cysgu, a gall addurniadau ewinedd rwystro offer monitro rhag gweithio'n iawn. Efallai y bydd angen i staff yr ysbyty dynnu'r rhain ac oedi eich triniaeth.

## Llenwi'r amser

- Yn aml mae llawer o amser aros i'w lenwi.
- Dewch â rhywbeth i'ch diddanu (er enghraifft, llyfr, cylchgrawn neu'ch ffôn symudol). Cofiwch ddod â'ch clustffonau a'ch gwefrwyr.
- Peidiwch ag ysmygu na chnoi gwm yn ystod yr amser aros hwn, a dilynwch y canllawiau ar fwyta ac yfed yn ofalus.

## Cael anesthetig

- Bydd eich anesthetydd yn aml yn dechrau eich anesthetig mewn ystafell anesthetig, ystafell drws nesaf i'r ystafell lawdriniaeth. Weithiau bydd hyn yn digwydd yn yr ystafell lle bydd y llawdriniaeth neu brawf yn digwydd.
- Bydd eich anesthetydd fel arfer yn dechrau eich anesthetig trwy roi rhywfaint o feddyginiaeth i chi trwy ganiwla (mae rhagor o wybodaeth am hyn isod). Yn achlysurol, bydd yn gofyn i chi anadlu nwy sy'n arogli ychydig fel pinnau ffelt. Bydd eich anesthetydd yn trafod â chi a'ch rhiant neu ofalwr y dull fydd orau i chi.
- Rhoi'r feddyginiaeth trwy eich caniwla yw'r ffordd gyflymaf i roi anesthetig i chi. Os byddwch chi'n anadlu'r nwy, bydd caniwla'n cael ei osod unwaith y byddwch chi'n cysgu, fel y gall yr anesthetydd roi mwy o anesthetig, cyffuriau lleddfu poen neu feddyginiaethau a hylifau eraill i chi yn ystod eich triniaeth. Gallai'r naill ddull neu'r llall wneud i chi deimlo'n benysgafn (chwil) cyn i chi fynd i gysgu.
- Os dymunwch, efallai y bydd eich rhiant neu ofalwr yn cael aros gyda chi nes eich bod yn cysgu. Ar ôl hynny, bydd yn cael aros amdanoch chi mewn ystafell aros neu ar y ward. Fel arall, bydd nyrs yn aros gyda chi tra bod yr anesthetig yn dechrau gweithio.

### Caniwla

- Tiwb main o blastig meddal yw caniwla; mae'n cael ei osod mewn gwythïen, fel arfer ar gefn eich llaw.
- Efallai y cewch gynnig eli fferru neu chwistrell oer arbennig ar gyfer cefn eich llaw i leihau unrhyw anghysur pan fydd y caniwla yn cael ei osod.
- Bydd nodwydd fain yn cael ei defnyddio i osod y caniwla, yna bydd y nodwydd yn cael ei thynnu'n syth.
- Unwaith y bydd y caniwla yn ei le, gellir rhoi meddyginiaeth i chi heb ddefnyddio rhagor o nodwyddau. Weithiau gall hyn achosi ychydig o oerni, pinnau bach neu fymryn o boen.
- Fel arfer caiff eich caniwla ei adael yn ei le ar ôl y llawdriniaeth rhag ofn y bydd angen cyffuriau lleddfu poen, hylifau neu feddyginiaethau eraill arnoch yn ddiweddarach.

## Yn ystod yr anesthetig

- Bydd anesthetydd yn aros gyda chi drwy'r amser.
- Gwaith yr anesthetydd yw eich cadw'n ddiogel a rhoi digon o anesthetig a chyffuriau lleddfu poen i chi fel eich bod yn dal i gysgu nes bydd y llawdriniaeth wedi dod i ben.
- Mae'r anesthetydd yn eich monitro'n ofalus drwy gydol y llawdriniaeth (yn cynnwys monitro eich pwysedd gwaed, cyflymder eich calon a'ch anadlu).

## Deffro/Dihuno wedi'r driniaeth

- Mae'r amser sydd ei angen ar gyfer unrhyw lawdriniaeth neu brawf yn amrywio, ond cyn gynted ag y bydd y driniaeth wedi'i chwblhau, bydd yr anesthetydd yn peidio â rhoi'r cyffuriau anesthetig i chi. Bydd hyn yn caniatáu ichi ddeffro/dihuno tua phum munud yn ddiweddarach.

- Mae'n debyg y byddwch chi'n deffro/dihuno yn yr ystafell adfer ond efallai na fyddwch chi'n cofio'r ychydig funudau cyntaf nac yn sylweddoli'n union lle rydych chi. Bydd aelod hyfforddedig o dîm yr ystafell lawdriniaeth, nyrs adfer fel arfer, yn gofalu amdanoch chi.
- Bydd sut y byddwch chi'n teimlo wedyn yn dibynnu ar y math o driniaeth ac anesthetig a gawsoch. Gall rhai pobl fod â dolur gwddf/gwddf tost neu wddf sych, neu fod â chur pen/pen tost, neu deimlo'n gysglyd. Bydd eich anesthetydd fel arfer yn rhoi meddyginiaeth i chi i’ch rhwystro rhag teimlo neu fod yn sâl, ond byddwch hefyd yn teimlo’n well ar ôl i chi yfed neu fwyta rhywbeth. Weithiau efallai y byddwch chi’n teimlo ychydig yn oer neu’n rhynllyd. Os felly, cewch gynnig blanced i'ch cynhesu.

### Trin poen

- Mae'n bwysig rhwystro a thrin poen, ac mae angen mwy o feddyginiaeth lleddfu poen ar rai pobl (a rhai mathau o lawdriniaethau) nag eraill.
- Mae’n haws trin poen cyn iddo fynd yn ddrwg, felly dylech ofyn i’ch nyrs adfer neu anesthetydd am help pryd bynnag y byddwch yn dechrau teimlo’n anghyfforddus, yn hytrach nag aros nes iddo waethygu.

### Dychwelyd i’r ward

- Efallai y byddwch chi'n teimlo'n flinedig iawn i ddechrau.
- Os bydd gennych chi unrhyw broblemau, rhowch wybod i rywun fel y gall eich helpu. Efallai y bydd yn rhaid i chi wasgu blîpiwr neu ofyn i'ch rhiant neu ofalwr ddod o hyd i nyrs i chi.
- Bydd pa mor fuan y cewch chi fwyta ac yfed eto yn dibynnu ar y math o driniaeth a'r cyffuriau lleddfu poen a gawsoch. Bydd eich nyrs neu anesthetydd yn gallu rhoi cyngor i chi.
- Byddwch yn aros yn yr ysbyty nes ei bod yn ddiogel i chi fynd adref. Ar gyfer llawer o driniaethau cewch fynd adref ar yr un diwrnod os ydych chi fel arfer yn iach ac os yw'r driniaeth yn un syml.

## Risgiau sy'n gysylltiedig ag anesthesia

Mae anesthetigion modern yn ddiogel iawn. Mae rhai sgil-effeithiau cyffredin i'r cyffuriau anesthetig neu'r offer a ddefnyddir; nid ydynt fel arfer yn ddifrifol nac yn para'n hir. Bydd eich anesthetydd yn trafod â chi â’ch rhiant neu ofalwr y risgiau y mae'n ystyried yn fwy arwyddocaol i chi. Mae rhagor o fanylion am risgiau sy’n gysylltiedig ag anesthesia ar gael mewn ieithoedd gwahanol ar ein gwefan: www.rcoa.ac.uk/patientinfo/translations#languages.

## Anesthesia lleol a rhanbarthol

- Weithiau cewch ddewis aros yn effro yn ystod eich llawdriniaeth. Os yw hyn yn bosibilrwydd, bydd eich llawfeddyg a/neu anesthetydd yn ei drafod â chi a’ch rhiant neu ofalwr. Yn yr achos hynny, gallwch gael pigiadau anesthetig lleol i fferru rhan o'ch corff fel nad ydych chi'n teimlo poen yno.
- Os ydych chi’n meddwl efallai yr hoffech chi aros yn effro, gallech drafod hyn yn eich asesiad cyn llawdriniaeth.

## Os hoffech chi ddysgu mwy

- Mae rhagor o wybodaeth ar gael mewn ieithoedd gwahanol ar ein gwefan: www.rcoa.ac.uk/patientinfo/translations#languages.

### Ymwadiad

Rydym ni'n ceisio sicrhau bod yr wybodaeth yn y daflen hon yn gywir ac yn gyfoes, ond ni allem warantu hynny. Nid ydym yn disgwyl i'r wybodaeth gyffredinol hon ateb pob cwestiwn sydd gennych, na delio â phopeth sydd o bwys i chi. Dylech drafod eich penderfyniadau ac unrhyw amheuon sydd gennych chi gyda'ch tîm meddygol, gan ddefnyddio'r daflen hon fel canllaw. Ni ddylid ystyried y daflen hon, ar ei phen ei hun, yn gyngor. Ni ellir defnyddio'r daflen hon at unrhyw bwrpas masnachol nac unrhyw bwrpas busnes. I weld yr ymwadiad llawn, cliciwch yma (www.rcoa.ac.uk/patient-information/translations/welsh).

Mae pob cyfieithiad yn cael ei darparu gan gymuned cyfieithwyr Translators Without Borders. Mae ansawdd y cyfieithiadau yn cael ei gwirio er mwyn sicrhau bod y cyfieithiadau mor gywir ag sy'n bosib, ond mae yna risg o anghywirdebau a chamddehongli peth gwybodaeth.

# Dywedwch wrthym beth yw eich barn

Rydym yn croesawu awgrymiadau ar gyfer gwella'r daflen hon.

Os hoffech chi wneud unrhyw sylwadau, e-bostiwch: patientinformation@rcoa.ac.uk

**Royal College of Anaesthetists (Coleg Brenhinol yr Anesthetyddion)**
Churchill House, 35 Red Lion Square, London WC1R 4SG
020 7092 1500

# www.rcoa.ac.uk

Pedwerydd Argraffiad, Hydref 2024

Bydd y daflen hon yn cael ei hadolygu o fewn tair blynedd o ddyddiad ei chyhoeddi.

**© 2024 Royal College of Anaesthetists (Coleg Brenhinol yr Anesthetyddion) a'r Association of Paediatric Anaesthetists of Great Britain and Ireland (Cymdeithas Anesthetyddion Pediatreg Prydain Fawr ac Iwerddon)**

Caniateir copïo'r daflen hon at ddibenion cynhyrchu deunyddiau gwybodaeth i gleifion. Dyfynnwch y ffynhonnell wreiddiol hon. Os ydych am ddefnyddio rhan o'r daflen hon mewn cyhoeddiad arall, rhaid rhoi cydnabyddiaeth addas a thynnu'r logos, y brandio a'r delweddau. Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â ni.